

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 20 Chwefror 2024

**Teitl:** Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25

**Pwrpas yr adroddiad:** Rhoi adborth ar y Gyllideb ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 23/01/24

## **Cefndir:**

Gofynnwyd i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried adroddiad Cyllideb ddrafft 24/25 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24 a'r effaith gysylltiedig ar y Gwasanaethau priodol o fewn ei gylch gwaith.

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach gyfarfod ar Chwefror yr 8<sup>fed</sup> 2024 am 9:30am.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddariad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl ynghylch Atodiadau B ac C a'r cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, D1-D4 fel a ganlyn:

D1 - Porth Cynnal

### **Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:**

Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant

**Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £123k**

**Y gyllideb bresennol: £33.7m**

D2 - Porth Gofal

### **Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:**

Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant

**Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £996k**

**Y gyllideb bresennol: £15.5m**

D3 - Porth Cymorth Cynnar

### **Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:**

• Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant

• Y Cynghorydd Catrin MS Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

- Y Cyngorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd  
**Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £222k**  
**Y gyllideb bresennol: £4.1m**

D4 – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Yr elfen Diogelu'r Cyhoedd)

**Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:**

Y Cyngorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

**Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £64k** (allan o £70k ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

**Y gyllideb bresennol: £2.5m**

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, tudalennau 1-49 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr aelodau Atodiad F ac Atodiad G.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

**Argymhellion:**

O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:
  - a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
  - b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
  - c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.
  - d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
  - e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
  - f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
  - g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

**Rheswm dros yr argymhellion:**

Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno i argymhell bod y Cabinet yn:

1. Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio Meysydd Parcio Ysgolion ar gyfer defnyddwyr y Canolfannau Lles, yn enwedig yn Llanbedr Pont Steffan, gan fod lleoedd parcio yn gyfyngedig iawn ac yn broblemus iawn. Mae defnyddwyr wedi dweud eu bod, oherwydd y broblem hon, wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r cyfleusterau.

**Y Cyngorydd Caryl Roberts**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**